Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol

# Prospectws Dysgu a Datblygu 2024

# Cynnwys


Cyflwyniad 1

Egwyddor 4 Datganiad Polisi Caffael Cymru 2

Nodi angen hyfforddi a mynd i'r afael â'r bylchau 3

Gallu Masnachol 4

Trosolwg Cymru Gyfan o Adnoddau Dysgu a Datblygu 5

Trosolwg o'r Adran

- Rhannu gwybodaeth, arfer gorau a chanllawiau deddfwriaethol 6
- Hyfforddiant TGCh a chymorth eGaffael 8
- Modiwlau eDdysgu Polisi Caffael a gefnogir 9
- Polisi Caffael a Masnachol 10
- Y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi: Gwybodaeth, arbenigedd a chefnogaeth sydd ar gael gan y corff proffesiynol 10
- Llwybrau wedi'u hariannu i gyflawni eich aelodaeth siartredig o'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (MCIPS) 11

Hyfforddiant Llywodraeth y DU

- Cyfleoedd i ymgysylltu â rhaglen hyfforddiant fasnachol a rhwydweithio Llywodraeth y DU 12
- Cyfleoedd Sector Cyhoeddus Ehangach Coleg Masnachol y Llywodraeth 13
- Cyfleoedd i ymgysylltu â rhaglenni hyfforddiant masnachol a rhwydweithio Llywodraeth y DU 13

Partneriaid Ehangach Llywodraeth Cymru

- Cefnogi'r gymuned caffael a masnachol 14

Economi Sylfaenol

- Cipolwg ar yr Economi Sylfaenol, adnoddau a Cynnal Cymru 14

Cefnogaeth GwerthwchiGymru Llywodraeth Cymru

- Trosolwg o'r Adran: Cefnogaeth, cymorth ac adnoddau gan GwerthwchiGymru ar gyfer cymuned gaffael y sector cyhoeddus yng Nghymru 15

Adnoddau Defnyddiol Llywodraeth Cymru

- Adnoddau Defnyddiol a Chyfeirio 16
- Arfer gorau a gwersi a ddysgwyd mewn caffael yn y sector cyhoeddus 16

Cymorth Uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru

- Cymorth blwch post cyffredinol Caffael a Masnachol 18


OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50705, ISBN argraffu 978-1-83625-729-5, ISBN digidol 978-1-83625-730-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Croeso i brosbectws dysgu a datblygu Caffael a Masnachol Llywodraeth Cymru.

Mae'r prosbectws hwn yn dod ag ystod eang o gyfleoedd dysgu a ddewiswyd yn ofalus at ei gilydd, i'ch helpu yn eich datblygiad proffesiynol, ac ar eich taith gaffael a masnachol.

Fe'i cynlluniwyd i gefnogi pawb sy'n ymwneud â Chaffael a Rheoli Contractau i lywio'r mentrau dysgu a datblygu helaeth.

Bydd y mentrau hyn yn eich cefnogi yn ystod cyfnod cyffrous o newid, o gael dealltwriaeth o'r prosesau caffael symlach a mwy hyblyg o dan y rheoliadau newydd i ddatblygu sgiliau caffael a masnachol newydd sy'n hanfodol i sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru.

Mae'r hyfforddiant a'r adnoddau sydd wedi'u cynnwys wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru, partneriaid ar draws y sector cyhoeddus, a'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi.

Mae'r adnoddau'n ymgorffori profiad ymarferol gwerthfawr ac arbenigedd o weithredu o fewn y rheoliadau caffael cyfredol.

Wrth i chi barhau â'ch datblygiad proffesiynol, byddwch yn gallu rhannu arfer gorau o fewn y gymuned fawr, gyffrous hon, gan gyfrannu at ein hadnoddau dysgu a datblygu esblygol wrth i'r dirwedd gaffael yng Nghymru newid.

# Cyflwyniad

## Mae'r prosbectws hwn yn nodi'r gyfres o gyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael ar gyfer y proffesiwn caffael a masnachol sy'n berthnasol i bawb.


Bydd yr adnoddau sydd ar gael yn gwella eich gwybodaeth gaffael a masnachol ac yn eich helpu wrth weithio gyda chydweithwyr neu gyflenwyr caffael.

Isod mae rhai o'r eiconau gweithgareddau hyfforddi a ddefnyddir drwy gydol y prosbectws hwn i'ch helpu i weld beth yw'r dull cyflwyno'n hawdd.

| | | |
|---|---|---|
| **Fforwm drafod** | **Gweminarau / recordiadau** | **Cyfleoedd i rwydweithio** |
| **Canllawiau** | **eDdysgu** | **Wyneb yn wyneb** |

# Egwyddor 4 Datganiad Polisi Caffael Cymru

**Byddwn yn codi statws a phroffil hirdymor y proffesiwn caffael a'i rôl fel galluogwr ar gyfer polisi caffael.**





**Rhaid i awdurdodau contractio sicrhau bod sgiliau ac adnoddau digonol ar gael i gyflawni prosesau caffael a rheoli contractau'n effeithiol, gan gadarnhau rôl caffael fel hwylusydd strategol twf ac arloesedd.**

# Nodi angen hyfforddi a mynd i'r afael â'r bylchau

**Mae llawer iawn o adnoddau ar gael trwy'r gwahanol lwyfannau dysgu o fewn y prosbectws hwn.**

Cyfrifoldeb yr unigolyn yw adolygu'r adnoddau a nodi'r dysgu priodol.

Bydd cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi cyn llunio eich Cynllun Datblygu yn eich helpu i nodi cyfleoedd datblygu.



# Gallu Masnachol

## Trosolwg o'r Adran: Fframweithiau cymhwysedd a'r modelau sydd ar gael i gefnogi cynnydd.

### Fframwaith Cymhwysedd Caffael Llywodraeth yr Alban

Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba

Nodi'r sgiliau a'r lefelau cymhwysedd sy'n ofynnol gan staff y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â'r broses gaffael, gan gynnwys yr offeryn Fframwaith Datblygu Caffael Cenedlaethol a lansiwyd ym mis Ebrill 2023.


www.gov.scot/publications/scottish-procurement-competency-framework

---

### Safon Fyd-eang y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi

CIPS

Fframwaith cymhwysedd ar gyfer ein proffesiwn, gan gynnwys y Safon Fyd-eang mewn fformat PDF.




www.cips.org/intelligence-hub/global-standard-for-procurement-supply

---

### Y Comisiwn Ewropeaidd: ProcurCompEU

European Commission

Y fframwaith cymhwysedd Ewropeaidd ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes caffael cyhoeddus. Mae ProcurCompEU yn offeryn a ddyluniwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd er mwyn helpu i broffesiynoli caffael cyhoeddus.

commission.europa.eu

# Trosolwg Cymru Gyfan o Adnoddau Dysgu a Datblygu



## Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ehangach

Academi Wales
CYD – cymuned, blogiau ac adnoddau a digwyddiadau
Diwygio Caffael
GwerthwchiGymru
Prifysgolion Cymru



## Y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol

Offer a Hyfforddiant eGaffael
Polisi Caffael Cymru: eDdysgu a chanllawiau
Datganiad Polisi Caffael Cymru 2021 a Chynllun Gweithredu
Nodiadau Polisi Caffael Cymru



## Datblygiad Personol

Digwyddiadau Canghennau'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi
Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi
Aelodaeth y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi
Gwefan adnoddau'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi
Podlediadau'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi
Digwyddiadau
Aelod o'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi / Statws Siartredig
Buddion aelodau



## Llywodraeth y DU

Swyddfa'r Cabinet / Swyddogaeth Fasnachol y Llywodraeth
Hyfforddiant rheoli cytundebau – eDdysgu
Cyfleoedd / digwyddiadau masnachol / llawlyfrau cyrchu
Coleg Masnachol y Llywodraeth
Dosbarthiadau Meistr
Opsiynau wedi'u hunan-ariannu

# Trosolwg o'r Adran

## Rhannu gwybodaeth, arfer gorau a chanllawiau deddfwriaethol

| Teitl | Trosolwg | Llywio |
|---|---|---|
| **Grŵp Arfer Gorau (GAG)***<br><br>* Dim ond i Lywodraeth Cymru a chyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru mae'r GAG ar gael. | Mae'r grŵp hwn yn dod â chydweithwyr masnachol a chaffael Llywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ynghyd i rannu arferion caffael gorau.<br><br>Trwy ddysgu ar y cyd, mae'r GAG yn sicrhau bod arfer gorau yn cael ei ymgorffori i gefnogi cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael, polisi caffael Cymru a sbarduno gwell canlyniadau masnachol drwy gydol ein gweithgarwch masnachol. | **Cysylltwch â: GalluMasnachol@llyw.cymru** i gael eich ychwanegu at y rhestr ddosbarthu ar gyfer y sesiynau hyn. |
| **Diwygio Caffael** | Yma cewch wybodaeth, fideos a recordiadau ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, busnesau a sefydliadau eraill ar ddiwygio'r broses gaffael yng Nghymru. | **Diwygio Caffael – Cymorth ac Adnoddau**<br><br>Cysylltwch â'r tîm diwygio caffael ar: **TimDiwygiorBrosesGaffael@llyw.cymru** |
| **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)** | Pecyn dysgu ar-lein newydd i helpu pobl i ddysgu mwy am fanteision partneriaethau cymdeithasol a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 sydd bellach ar gael drwy'r platfform Dysgu@Cymru.<br><br>Mae'r dysgu ar-lein yn darparu mynediad at fodiwlau rhyngweithiol am ddim i'ch helpu i ddysgu mwy am bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. | **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus – eDdysgu** |
| **Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)** | Mae'r tîm Iechyd yn datblygu pecyn cymorth dysgu a datblygu y disgwylir iddo fod ar gael yn ddiweddarach yn 2024. | Ddim ar gael eto |

| Teitl | Trosolwg | Llywio |
|---|---|---|
| **Diferion Gwybodaeth Llywodraeth y DU**<br>**Dim ardystiad** | Mae'r hyfforddiant hwn ar gyfer y rhai sy'n rhyngweithio'n rheolaidd â chaffael ac sydd angen rhywfaint o ddealltwriaeth berthnasol o'r ddeddfwriaeth newydd yn dilyn cyflwyno Deddf Caffael 2023, gan gynnwys uwch arweinwyr ar lefel weithredol, cyllid, comisiynwyr gwasanaethau, ac ati. | Diferion Gwybodaeth a thaflenni gwybodaeth ar wedudalennau 'Transforming Public Procurement' Llywodraeth y DU **Knowledge Drops**. |
| **eDdysgu Llywodraeth y DU**<br>**Hyfforddiant craidd ar gyfer Deddf Caffael 2023**<br>**e-Fathodyn ar ôl ei gwblhau** | Mae'r hyfforddiant hwn ar gyfer gweithwyr proffesiynol caffael a masnachol lefel ymarferydd medrus sydd angen deall y drefn newydd e.e. staff caffael gweithredol neu staff masnachol sydd â'r brif rôl o redeg tendrau, gosod contractau, neu reoli cyflenwyr neu gontractau. Gall dysgwyr ddewis cwblhau rhai o'r modiwlau sy'n berthnasol iddynt. Fodd bynnag, ni fyddent yn derbyn ardystiad, nac yn cael mynediad at y sesiynau Archwilio Dwfn. | Bydd dysgu hunan-dywysedig ar gael ar wefan Coleg Masnachol y Llywodraeth (GCC).<br>Bydd angen i ddysgwyr gofrestru gyda GCC i gael mynediad i'r **deunydd yma**.<br>Mae rhagor o fanylion am gynnwys hyfforddiant Llywodraeth y DU ar **gael yma**. |
| **eDdysgu Llywodraeth Cymru**<br>**Dim ardystiad** | Mae'r hyfforddiant hwn ar gyfer unrhyw un o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru sydd angen deall y ddeddfwriaeth gaffael newydd yng Nghymru. Gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau sector cyhoeddus Cymru, mae'r hyfforddiant hwn yn ymgorffori gofynion o dan y Ddeddf Caffael, y dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), a'r Gwasanaeth Iechyd. | Bydd dysgu hunan-dywysedig ar gael ar wefan Dysgu@Cymru.<br>Bydd angen i ddysgwyr gofrestru ar: **Dysgu@Cymru** i gael mynediad i'r **deunydd yma.** |
| **Archwiliadau Dwfn Llywodraeth y DU**<br>Adeiladu ar y 'beth' sy'n cael ei gynnig gan eDdysgu, er mwyn canolbwyntio ar y 'sut'.<br>DS – tridiau yn olynol.<br>e-Fathodyn ar ôl cwblhau. | Mae'r hyfforddiant hwn yn darparu dosbarthiadau rhithwir rhyngweithiol, cymysg, dan arweiniad hyfforddwyr mewn carfannau gydag uchafswm o 24 o gyfranogwyr.<br>Byddant yn rhoi'r sgiliau a'r hyder i'r rhai sydd angen dod yn ymarferwyr arbenigol yn y drefn newydd i wneud y mwyaf o fanteision Deddf Caffael 2023, gan gynnwys rheolwyr categorïau a chyfreithwyr arbenigol. | Bydd Penaethiaid Caffael yn enwebu dysgwyr i gofrestru ar gyfer sesiwn rithwir yn dilyn cwblhau eDdysgu Llywodraeth y DU yn llwyddiannus.<br>Bydd archebion ar system dreigl 3 mis.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal Archwiliadau Dwfn Cymraeg yn ôl y galw. |

## Hyfforddiant TGCh a chymorth eGaffael

| Teitl | Trosolwg | Llywio |
|---|---|---|
| **Basware** | Basware yw'r ateb eAnfonebu cyfredol ar gyfer sefydliadau a gofrestrodd ar gyfer y swyddogaeth ym mis Hydref 2023. | Ariennir trwyddedau rhanddeiliaid gan Lywodraeth Cymru. Rhaid ariannu cymorth ymgynghorol eich hun.<br>**Cysylltwch ag: OfferCaffaelDigidol@llyw.cymru** gydag unrhyw ymholiadau. |
| **eDendroCymru (Cyrchu)** | Offeryn meddalwedd yw eDendroCymru ar gyfer gweithgarwch eDendro a chontractio ar gyfer cyfleoedd caffael.<br>Bydd angen i brynwyr a chyflenwyr gofrestru i gael mynediad i'r porth. | Mae gan bob sefydliad uwchddefnyddiwr ('Superuser') sy'n gallu rheoli eu defnyddwyr.<br>**Cysylltwch ag: OfferCaffaelDigidol@llyw.cymru** gydag unrhyw ymholiadau. |
| **Dun & Bradstreet** | Mae offeryn adrodd Dadansoddi Risg ar gael i gefnogi gweithgarwch Caffael. | **Cysylltwch ag: OfferCaffaelDigidol@llyw.cymru** i gael trwydded*.<br>* (Sylwch fod trwyddedau'n gyfyngedig ac fe'u rhoddir fesul achos) |
| **Commerce Decisions (eAWARD)** | Mae'r adnodd AWARD® yn galluogi hwyluso di-dor ar gyfer gwerthuso technegol gyda meini prawf wedi'u pwysoli ac yn ffordd o gael cytundeb cyffredinol drwy fod yn gwbl dryloyw er mwyn cyfiawnhau ac amddiffyn pob penderfyniad. | Gellir cael trwyddedau **eAward** trwy e-bostio **OfferCaffaelDigidol@llyw.cymru**<br>Rhaid ariannu cymorth ymgynghorol eich hun. |
| **Sylfaen Wybodaeth** | Mae Commerce Decisions yn darparu amrywiaeth o ganllawiau i gefnogi'r broses gaffael drwy'r Sylfaen Wybodaeth. | **Hyb canllawiau Atebion Sylfaen Wybodaeth** |
| **Defnyddio Award fel Gwerthuswr** | Yma ceir canllaw fideo fydd yn eich tywys trwy ddefnyddio AWARD® fel Gwerthuswr. | **Canllawiau Gwerthuso** |
| **Gweminarau Commerce Decision** | Gwyliwch recordiadau o weminarau'r digwyddiadau byw. | **Cliciwch yma i we-lywio i wefan Cyd.** |

## Modiwlau eDdysgu Polisi Caffael


Bydd angen i ddefnyddwyr gofrestru a chwilio am yr eDdysgu hwn trwy **learning.nhs.wales** gan ddefnyddio'r bar chwilio ar ochr dde'r sgrin. Llywiwch i dab Llywodraeth Cymru a chwiliwch y catalog cyrsiau fesul teitl cwrs. Gall defnyddwyr e-bostio tîm Dysgu@Cymru gydag unrhyw ymholiadau: **eateb@wales.nhs.uk**

| Teitl | Trosolwg |
|---|---|
| **Cod Ymarfer:** Cyflogi moesegol mewn cadwyni cyflenwi | Mae'r ymrwymiadau yn y Cod yn helpu i sicrhau bod gweithwyr yn ein cadwyni cyflenwi'n cael eu cyflogi'n deg. Mae'r cod yn ymrwymo sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gyfres o gamau gweithredu sy'n mynd i'r afael ag arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac annheg.<br>**Bydd yr eDdysgu hwn yn eich helpu gyda:**<br>• Y 4 Pwnc.<br>• Y 12 Ymrwymiad.<br>• Y Pecyn Gwybodaeth. |
| **Canllaw Cynigion ar y Cyd** | Mae'r modiwl eDdysgu hwn yn seiliedig ar y Canllaw Cynigion ar y Cyd. Mae'n cefnogi consortia wrth iddynt dendro am gontractau cyhoeddus. Gall fod yn anodd i fusnesau bach gystadlu am gontractau cyhoeddus mawr. Mae'r hyfforddiant hwn yn dangos sut y gall busnesau ffurfio consortia i gynyddu eu gallu. Mae'n egluro'r dull a ddefnyddir i dendro ar y cyd, a sut i oresgyn problemau yn ystod proses gaffael.<br>**Bydd yr hyfforddiant hwn yn eich helpu gyda:**<br>• Parodrwydd Sefydliadau.<br>• Blaengynllunio.<br>• Asesu Addasrwydd.<br>• Paratoi i Hysbysebu. |
| **Buddion Cymunedol** | Mae Buddion Cymunedol yn ofynion cytundebol sy'n gysylltiedig â chontractau'r sector cyhoeddus sydd â'r nod o sicrhau buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol tra'n sicrhau'r nwyddau, gwasanaethau neu waith sydd eu hangen ar y sector cyhoeddus yng Nghymru.<br>**Bydd yr eDdysgu hwn yn rhoi:**<br>• Dealltwriaeth o bolisi Buddion Cymunedol.<br>• Dealltwriaeth o sut mae gweithredu polisi Buddion Cymunedol yn cyfrannu at gyflawni'r Nodau Llesiant.<br>• Sut i nodi cyfleoedd Buddion Cymunedol a chynllunio amcanion Buddion Cymunedol yn eich caffael.<br>• Trosolwg o reoli contractau Buddion Cymunedol. |
| **Cyfrifon Banc Prosiect** | Mae'r eDdysgu hwn wedi'i anelu at y rhai sy'n dymuno ennill dealltwriaeth ac eglurhad ar y canlynol:<br>• Beth yw CBP<br>• Y gyrwyr polisi ar gyfer CBPau<br>• Polisi CBP LlC<br>• Pam mae angen CBP<br>• Buddion CBP<br>• Gwahaniaethau a manteision CBP sengl neu ar y cyd<br>• Sut mae CBP yn ffitio i mewn i'r broses dalu. |

## Polisi Caffael a Masnachol

| Teitl | Trosolwg | Llywio |
|---|---|---|
| Cynlluniau Lleihau Carbon | Digwyddiadau wythnosol a ddarperir gan Wasanaethau Masnachol y Goron ar gyfer cyflenwyr ond gallent eich helpu i ddysgu mwy am yr hyn sydd ei angen.<br>Archebwch ar-lein i gadw eich lle. | Cadwch le yma |
| Polisi Masnachol | Cyngor, canllawiau ac ymholiadau ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru. | E-bostiwch y tîm Polisi Masnachol ar:<br>PolisiMasnachol@llyw.cymru |

## Y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi: Gwybodaeth, arbenigedd a chefnogaeth sydd ar gael gan y corff proffesiynol

| Teitl | Trosolwg | Llywio |
|---|---|---|
| Y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi<br> | Y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi yw'r corff proffesiynol mwyaf yn y byd sy'n gwasanaethu Prynu a Chyflenwi.<br>Mae'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi yn cynnig cyfoeth o hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad trwy wefan y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi i aelodau gan gynnwys mynediad at gymwysterau Proffesiynol, cymorth rhaglenni ar themâu allweddol i gyflogwyr a myfyrwyr, digwyddiadau a chyfleoedd i rwydweithio, ochr yn ochr â gwefan wedi'i hadnewyddu a Hyb Gwybodaeth. | www.cips.org |
| Digwyddiadau Canghennau'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi<br> | Mae digwyddiadau canghennau'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi yn cael eu cynnal a'u darparu ar sail ranbarthol sy'n cyflwyno sesiynau wyneb yn wyneb i rannu gwybodaeth ac arfer gorau i'w aelodau. Mae tair cangen yn gweithredu ar hyd a lled Cymru, ac mae rhaglenni'n cael eu hysbysebu drwy wefan y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi. | Cangen Gorllewin Cymru<br>Cangen De Cymru<br>Cangen Caer a Gogledd Cymru |

# Llwybrau wedi'u hariannu i gyflawni eich aelodaeth siartredig o'r Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi (MCIPS)

| Teitl | Trosolwg | Llywio |
|---|---|---|
| **Y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi**<br><br>**Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol***<br><br>*** Mae'r rhaglen a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd (BA2024/2025)** | Mae'r Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol yn llwybr dysgu cymhwysol i gyflawni MCIPS a ddarperir gan y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi, a gefnogir yn ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen yn cael ei darparu fel rhan o raglen Capasiti a Gallu Caffael a Masnachol Llywodraeth Cymru.<br><br>Nod y rhaglen yw sicrhau bod lefelau sgiliau staff presennol y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn diwallu anghenion heddiw, yn creu gweithwyr proffesiynol y dyfodol, ac yn codi statws y proffesiwn caffael. | **Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi** |
| CIPS Diploma Lefel 4 mewn Caffael a Chyflenwi<br><br>CIPS Diploma Uwch Lefel 5 mewn Caffael a Chyflenwi drwy Gyfrif Dysgu Personol | Mae'r Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi yn gymhwyster proffesiynol a gydnabyddir yn rhyngwladol, hyd at Lefel Gradd Anrhydedd, sy'n bragmatig iawn ac yr un mor berthnasol i'r sectorau cyhoeddus a phreifat.<br><br>Mae cyllid ar gyfer Lefel 4 a Lefel 5 ar gael drwy Raglen Cyfrifon Dysgu Personol Llywodraeth Cymru ar gyfer unigolion sy'n bodloni meini prawf allweddol. | **www.gllm.ac.uk/personal-learning-account** |

| Teitl | Trosolwg | Llywio |
|---|---|---|
| **Prentisiaeth mewn Caffael a Chyflenwi Masnachol**<br>**Lefel 3**<br>**Lefel 4** | Mae'r brentisiaeth yn ddelfrydol ar gyfer gweithwyr proffesiynol caffael newydd a phresennol sydd am ddatblygu gwybodaeth a chymwyseddau hanfodol i ffynnu yn y sector caffael.<br>Ategir y brentisiaeth gan ddau gymhwyster allweddol:<br>• Tystysgrif (Lefel 3) a Diploma (Lefel 4) y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi.<br>• Cymhwyster cymhwysedd newydd ei ddatblygu sy'n sicrhau bod y rhai sy'n astudio'r brentisiaeth yn datblygu'r cymhwysedd a'r hyder ar gyfer gyrfa gyffrous ym maes caffael. | **Fframwaith Prentisiaethau:**<br>**Eich cyf (acwcerts.co.uk)**<br>**Sut i gymryd rhan mewn prentisiaeth:**<br>**Prentisiaethau \| Is-bwnc \| LLYW.CYMRU** |

# Hyfforddiant Llywodraeth y DU

## Cyfleoedd i ymgysylltu â rhaglen hyfforddiant fasnachol a rhwydweithio Llywodraeth y DU

| Teitl | Trosolwg | Llywio |
|---|---|---|
| **Coleg Masnachol y Llywodraeth** | Mae Coleg Masnachol y Llywodraeth yn darparu dysgu masnachol a rheoli contractau allweddol ar gyfer gweision sifil a'r sector cyhoeddus ehangach.<br>Mae'r cyrsiau'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, ac maent wedi'u cynllunio i gefnogi'r rhai mewn rolau masnachol ac anfasnachol i ddatblygu eu sgiliau a chyflawni llinell sylfaen o ragoriaeth broffesiynol. Yma gallwch gael mynediad i'r sesiynau hyfforddi Rheoli Contractau Sylfaen a Thu Hwnt i Sylfaen, Ymarferydd ac Arbenigwr ochr yn ochr â chyfleoedd eraill.<br>I gael gwybod mwy am yr hyfforddiant Rheoli Contractau e-bostiwch: **GalluMasnachol@llyw.cymru** | **Coleg Masnachol y Llywodraeth** |

# Cyfleoedd Coleg Masnachol y Llywodraeth ar gyfer y sector cyhoeddus ehangach**

## Cyfleoedd masnachol

- Gwybodaeth, canllawiau ac adnoddau ar gyfer Uwch Swyddogion Gweithredol Masnachol.
- The Sourcing Playbooks.

## Modiwlau eDdysgu: Cyfleoedd i reoli contractau

- Rheoli contractau Sylfaen.
- Rheoli contractau Tu Hwnt i Sylfaen – modiwl eDdysgu.
- Modiwl 1 SRO – Cyflwyniad i reoli contractau ar gyfer uwch berchnogion cyfrifol / busnes.

## Arall

- Gweminarau Rheoli Dysgu a Datblygu Masnachol drwy Newid.
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Rheoli Grantiau.
- Cyfres eDdysgu PFI.
- eDdysgu Gwerth cymdeithasol.
- Dosbarth meistr D&I.
- Dosbarthiadau Meistr Safonau Masnachol Sector Cyhoeddus.
- Trawsnewid Caffael Cyhoeddus – ar y ffordd yn fuan.

## Cyfleoedd eraill wedi'u hunan-ariannu

- Cyrsiau Dysgu a Datblygu Masnachol – ar gyfer y rhai sydd wedi mynychu'r Ganolfan Datblygu Asesu Masnachol.
- Rheoli Contractau – Ymarferydd/Arbenigwr.

**Cliciwch yma i fynd i wefan Coleg Masnachol y Llywodraeth** neu ewch i: **www.govcommercialcollege.co.uk**

# Cyfleoedd i ymgysylltu â rhaglenni hyfforddiant masnachol a rhwydweithio Llywodraeth y DU

| Teitl | Trosolwg | Llywio |
|---|---|---|
| **Hyb Gwybodaeth**<br>**1. Cymuned Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** | Mae'r platfform hwn yn cynnig cymuned ryngweithiol ar-lein i gydweithwyr bostio cwestiynau, rhannu gwybodaeth, mewnwelediad ac arfer gorau a dysgu o brofiadau cydweithwyr. Fe'i defnyddir yn helaeth mewn llywodraeth ganolog a lleol, iechyd, addysg, tai, yr heddlu a gwasanaethau tân. | **Grŵp Cymuned Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| **2. Calendr y Digwyddia-dau*** | Mae'r calendr hwn yn rhoi cyfle i gael mynediad i ddigwyddiadau masnachol sydd ar gael i'w harchebu.<br><br>Bydd gofyn i ddefnyddwyr gofrestru i gael mynediad a chyflwyno ceisiadau unigol i ymuno â'r grwpiau cymunedol*. | **Grŵp Cymuned GCF: digwyddiadau** |

* Efallai y bydd rhai digwyddiadau yn y calendr yn costio.

**Gall adnoddau gynnwys gwahaniaethau polisi mewn rhai meysydd.

# Partneriaid Ehangach Llywodraeth Cymru

## Cefnogi'r gymuned caffael a masnachol

| Teitl | Trosolwg | Llywio |
|---|---|---|
| **Academi Wales**<br>*Efallai y bydd rhai digwyddiadau'n costio. | Yma cewch amrywiaeth o adnoddau dysgu, cyrsiau a digwyddiadau a rhwydweithiau wedi'u hanelu at arweinwyr a rheolwyr*. | **academiwales.gov.wales** |
| **CYD Digwyddiadau / Adnoddau / Blogiau** | Cyd yw'r ganolfan ragoriaeth lle gall cymunedau caffael a masnachol ddysgu a chefnogi ei gilydd.<br>Fe'i datblygwyd i gefnogi gweithwyr proffesiynol caffael a masnachol i weithredu Polisïau Caffael Cymru yn eu gwaith o ddydd i ddydd.<br>Yma cewch y Daith Gaffael, Astudiaethau Achos, Digwyddiadau, Adnoddau (Pecynnau Gwybodaeth) a Blogiau i gefnogi'r gymuned gaffael ehangach. | **https://cyd.cymru** |

# Economi Sylfaenol

## Cipolwg ar yr Economi Sylfaenol, adnoddau a Cynnal Cymru

| Teitl | Trosolwg | Llywio |
|---|---|---|
| **Economi Sylfaenol** | **Beth yw'r Economi Sylfaenol (ES)?**<br>Y rhan o'r economi sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt ac sy'n ein cadw'n ddiogel ac yn wâr.<br>Mae'n flaenoriaeth y Rhaglen Lywodraethu ac yn rhan allweddol o Genhadaeth Cydnerthedd Economaidd ac Ailadeiladu Llywodraeth Cymru. Mae'r ES yn cyfrif am 4 o bob 10 swydd ac 1 o bob £3 rydym yn ei gwario.<br>Gallwch ddarganfod mwy drwy fynd i wefan Cynnal Cymru. | **Modiwl eDdysgu yr Economi Sylfaenol**<br>**Cynnalcymru.com** |

# Cefnogaeth GwerthwchiGymru

## Trosolwg o'r Adran: Cefnogaeth, cymorth ac adnoddau GwerthwchiGymru ar gyfer cymuned gaffael y sector cyhoeddus yng Nghymru

## Am ragor o wybodaeth ewch i: www.gwerthwchigymru.llyw.cymru

### Beth yw GwerthwchiGymru?

Wedi'i rheoli gan Lywodraeth Cymru, mae gwefan GwerthwchiGymru.llyw.cymru yn cynnig amgylchedd rhad ac am ddim a diogel ar gyfer hysbysebu contractau a chyfleoedd tendro.

Bob blwyddyn, mae cyfleoedd contract gwerth dros £7 biliwn ar gyfartaledd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau'r sector cyhoeddus yn cael eu hysbysebu drwy'r wefan hon.

Mae tua 80% yn gyfleoedd llai, felly mae contractau ar gael ar gyfer busnesau o bob math a maint.

**Rydym yn ceisio helpu:**

- prynwyr sector cyhoeddus i hysbysebu a rheoli cyfleoedd tendro.
- busnesau i hyrwyddo eu gwasanaethau.
- busnesau i ddod o hyd i gyfleoedd contract.





| | |
|---|---|
| **Dyfynbris Sydyn**<br>**Cliciwch yma** | **Proffil Cyhoeddus – Canfod Cyflenwr**<br>**Cliciwch yma** |
| **Cyfleuster Is-gontractio**<br>**Cliciwch yma** | **Dogfen Gaffael Sengl**<br>**Cliciwch yma** |
| **Cymorth Cadwyni Cyflenwi**<br>**Cliciwch yma** | **Tudalennau Prosiectau GwerthwchiGymru**<br>**Cliciwch yma** |
| Cymorth ac Adnoddau i Brynwyr<br>**Cliciwch yma** | Cwestiynau Cyffredin am GwerthwchiGymru<br>**Cliciwch yma** |
| Blwch Postio GwerthwchiGymru<br>**Cliciwch yma** | Canfod Contractau<br>**Cliciwch yma** |
| Hysbysiad Cam 2<br>**Cliciwch yma** | Hysbysiad Dyfarnu Contract<br>(Prynwyr nad ydynt wedi Cofrestru)<br>**Cliciwch yma** |

# Adnoddau Defnyddiol Llywodraeth Cymru

## Adnoddau Defnyddiol a Chyfeirio

| | | |
|---|---|---|
| **Datganiad Polisi Caffael Cymru 2021** | Nodi'r weledigaeth strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. | **DPCC 2021** |
| **Datganiad Polisi Caffael Cymru 2021: Cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru** | Nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cadw at Ddatganiad Polisi Caffael Cymru yn ei phrosesau caffael ei hun. | **Cynllun Gweithredu DPCC 2021** |
| **Nodiadau Polisi Caffael Cymru** | Mae'r casgliad hwn yn dwyn ynghyd Nodiadau Polisi Caffael Cymru a Nodiadau Polisi Caffael llywodraeth y DU, gan ddarparu cyngor i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru. | **Nodiadau Polisi** |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r uchelgais, y caniatâd a'r rhwymedigaeth gyfreithiol i ni wella ein lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. | **DLlCD 2015** |
| **Canllawiau a gwasanaethau caffael sector cyhoeddus Cymru** | Gwefan letyol ar gyfer holl gyngor ac arweiniad polisi caffael Cymru. | **Canllawiau a gwasanaethau caffael Sector Cyhoeddus Cymru** |

# Arfer gorau a gwersi a ddysgwyd o ran caffael yn y sector cyhoeddus. Ewch i'r llyfrgell o astudiaethau achos yn: www.llyw.cymru/astudiaethau-achos-caffael

| | | |
|---|---|---|
| **Abertawe yn arwain y ffordd mewn taliadau ynni prydlon** | Fel ysgolion eraill ledled Cymru, mae ysgolion yn Abertawe wedi talu eu biliau ynni drwy siec yn hanesyddol. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Caffael cydweithredol prynu cerbydau trydan** | Enillion a wnaed drwy gytundeb cydweithredol arloesol i helpu awdurdodau lleol Cymru i drosglwyddo eu fflydoedd i Sero Net. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Gwasanaeth leiners newydd yn cynorthwyo i sicrhau Cymru sy'n fwy gwyrdd** | PHS yn arloesi gwasanaeth leiners eco-gyfeillgar sy'n lleihau allyriadau carbon ac yn arbed dŵr. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |

| | | |
|---|---|---|
| **Paratoi'r proffesiwn caffael yng Nghymru at y dyfodol** | Myfyrwyr yn mynd o nerth i nerth gyda chefnogaeth rhaglen lleoli caffael Llywodraeth Cymru drwy gydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Fframwaith ar gyfer darparu athrawon cyflenwi yng Nghymru** | Gwnaeth Tîm Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru gaffael fframwaith ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir ledled Cymru i gynyddu tryloywder ffioedd asiantaethau a gwella cyflog ac amodau gwaith i athrawon cyflenwi. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Sophie yn caffael mewn steil** | Dechreuodd Sophie Stacey ei thaith gaffael drwy weithio fel prynwr ar gyfer busnes teuluol. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Stori Brian – y llwybr at ddyfodol positif** | Mae'r ffilm hon yn dangos sut y rhoddodd model caffael masnachol gyfle i Brian ailadeiladu ei ddyfodol a rhoi yn ôl i'r gymuned. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Sicrhau Gwerth Cymdeithasol drwy weithgarwch masnachol cydweithredol** | Mae'r ffilm hon yn arddangos arfer gorau mewn perthynas â darparu Gwerth Cymdeithasol trwy gaffael prosiect seilwaith mawr, Metro De Cymru. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Menter caffael arloesol yn creu sŵn** | Bydd offerynnau cerdd carbon niwtral yn cael eu rhoi i bob disgybl 7 oed yng Nghymru diolch i gyllid Llywodraeth Cymru a llwybr prynu arloesol. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Menter gymdeithasol yn darparu hybiau gwaith hybrid gwyrdd** | Yn hydref 2021, symudodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Data Cymru i le gwaith newydd a rennir yng Nghaerdydd. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi yn nyfodol gweithwyr caffael proffesiynol** | Disgwylir i dros 60 o leoedd a ariennir a ddyrennir ar gyfer y Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol ddechrau yn hydref/gaeaf 2022 i 2023. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Ministry of Furniture yn cael contract i gyflenwi Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithio gyda gweithgynhyrchwyr o Gymru i ddod o hyd i ddodrefn yn gynaliadwy a chefnogi amcanion yr economi gylchol. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |

| | | |
|---|---|---|
| **Podiau ymwelwyr wedi'u sicrhau ar gyfer cartrefi gofal ledled Cymru** | Helpu pobl i gadw cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau lle nad yw ymweliadau rheolaidd wedi bod yn bosibl oherwydd cyfyngiadau COVID-19. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Gwasanaeth e-Daliadau Barclaycard yn darparu parhad i sector cyhoeddus Cymru** | Mae Gwasanaeth e-Daliadau Barclaycard ar gyfer sector cyhoeddus Cymru wedi bod ar waith ers 2014 ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ddefnyddio gan dros 110 o sefydliadau. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |
| **Llofnodion digidol yn darparu ystwythder a pharhad ar gyfer caffael cyhoeddus yng Nghymru** | Yn ddiweddar, rhoddodd tîm Caffael Digidol a TGCh Llywodraeth Cymru swyddogaeth llofnod ddigidol DocuSign ar waith yn ei borth cyrchu a thendro, eDendroCymru, a ddarperir gan y darparwr gwasanaeth, JAGGAER. | **Cliciwch yma ar gyfer yr astudiaeth achos lawn** |

# Cymorth Uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru

## Cymorth blwch post cyffredinol Caffael a Masnachol

Gwybodaeth Busnes
**CaffaelMasnacholGwybodaethBusnes@llyw.cymru**

Gallu Masnachol ac Arweinyddiaeth
**GalluMasnachol@llyw.cymru**

Cyflawni Masnachol
**CaffaelMasnachol.Cyflawni@llyw.cymru**

Polisi Masnachol
**PolisiMasnachol@llyw.cymru**

Caffael Digidol
**OfferCaffaelDigidol@llyw.cymru**

Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)
**DiwygioCaffaelGofalIechyd@llyw.cymru**

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol
**pgcgt@llyw.cymru**

Diwygio Caffael
**TimDiwygiorBrosesGaffael@llyw.cymru**

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y prosbectws hwn neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: GalluMasnachol@llyw.cymru**